PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# Trefn Cymeradwyo a Chofrestru Projectau Ymchwil Sensitif

| Adolygwyd | Dyddiad | Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Diweddaru teitl y Pwyllgor |
|---|---|---|---|
| 1. | 11 Mai 2016 | Cyhoeddiad cyntaf | Adolygu ac ailgymeradwyo |
| 2. | Tachwedd 2021 | Wrthi'n diweddaru teitl y Pwyllgor | |
| 3. | Medi 2022 | Adolygu ac ailgymeradwyo | |
| 4. | Gorffennaf 2022 | Diwygiadau i ddiweddaru rolau a chyfrifoldebau | |

| Swyddog Polisi | Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol | Ysgrifennydd Brifysgol | Pwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol | 15 Medi 2022 |

*Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd*

## 1. Rhagarweiniad

Mae’r ddogfen hon yn egluro'r drefn ar gyfer cymeradwyo a chofrestru projectau ymchwil sensitif a wneir gan aelodau o staff a myfyrwyr ôl-radd[1]Prifysgol Bangor.

Mae Prifysgol Bangor yn cefnogi'i hymchwilwyr sy’n gwneud ymchwil dilys gyda deunyddiau sensitif. Fel rhan o’r gefnogaeth honno mae'n cydnabod y cyfrifoldeb sydd arni i sicrhau y caiff yr ymchwilwyr eu diogelu rhag camddehongli eu bwriadau gan yr awdurdodau, sy'n gallu arwain at sancsiynau cyfreithiol. Felly mae’n hanfodol bod y Brifysgol yn ymwybodol o waith ymchwil o'r fath, ac yn ei awdurdodi drwy'r prosesau moesegol priodol, cyn i'r gwaith ymchwil ddechrau, gan ganiatáu felly i'r Brifysgol ddangos ei bod yn ymwybodol o'r project a'i fod wedi bod drwy'r broses adolygu briodol.

## 2. Diffiniad

Bydd diffiniad Prifysgol Bangor o brojectau ymchwil sensitif yn cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

1. Gwaith ymchwil y bydd y Brifysgol a/neu'r cyllidwr yn barnu ei fod yn sensitif, e.e.

    a. Deunyddiau y mae Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989, Deddf Terfysgaeth 2006 a Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn berthnasol iddynt;
    b. Deunyddiau y ceir mynediad atynt ac a ddefnyddir ar gyfer projectau a gomisiynwyd gan Fyddin Prydain;
    c. Projectau ymchwil y mae’n rhaid i’r ymchwilwyr gael awdurdodiadau diogelwch penodol ar eu cyfer;

2. Gwaith ymchwil a all gynnwys torri deddfwriaeth droseddol, cael mynediad at ddeunyddiau anghyfreithlon neu waharddedig, a / neu gyfweld unigolion a fu/ neu a all fod yn ystyried cyflawni trosedd e.e.:

    d. Ymchwilwyr sy'n gwneud gwaith ymchwil troseddegol, a bod angen mynediad at ddeunyddiau anghyfreithlon, neu gyfweld unigolion a gyflawnodd drosedd/neu a all fod yn ystyried cyflawni trosedd.
    e. Deunyddiau a gwmpesir gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 a Deddf Amddiffyn Plant 1978 gan gynnwys pornograffi a delweddau o gam-drin plant

Cydnabyddir y gellid ystyried deunyddiau ymchwil eraill, na chrybwyllir mohonynt uchod, hefyd yn rhai sensitif. Os oes unrhyw amheuaeth, yn gyntaf oll, dylai’r ymchwilydd gysylltu â chadeirydd y Pwyllgor Moeseg Academaidd perthnasol am gyngor a chyfarwyddyd pellach.

## 3. Proses Cymeradwyaeth Foesegol i Ymchwil Sensitif

[a] Yn unol ag Adran 4.1 Polisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol, dylai pob ymchwil sy'n ymwneud â chyfranogwyr dynol y mae iddo fwy na risg fach iawn gael ei adolygu naill ai gan bwyllgor

[1]Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol (e.e. gwaith ymchwil dilys i ymddygiad troseddol, terfysgaeth ac yn y blaen) y byddai'r Brifysgol yn caniatáu i israddedigion ymgymryd â phrojectau ymchwil sensitif. Câi'r penderfyniad ei wneud gan y Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif.

moeseg ymchwil allanol priodol neu Bwyllgor Moeseg Ymchwil Academaidd (AREC) priodol. Fel rheol ystyrir y gweithgareddau ymchwil a ddisgrifir yn Adran 2 uchod yn rhai y mae iddynt fwy na risg bychan ac, o'r herwydd, rhaid eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor priodol yn gyntaf.

[b] Fel y’i diffinnir yn Adran 4.4 Polisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol mae lefel ychwanegol o gyfrifoldeb a chraffu ar waith ymchwil a wneir y tu allan i’r Deyrnas Unedig neu sy’n cynnwys partneriaid o’r tu allan i’r Deyrnas Unedig a dylai’r ymchwilwyr sicrhau eu bod wedi ystyried yr holl ofynion cyfreithiol yn llawn a holl ofynion cyfreithiol y cyrff proffesiynol perthnasol cyn cyflwyno dim gerbron y pwyllgor moeseg ymchwil allanol neu’r Pwyllgor Moeseg Ymchwil Academaidd. Mae angen i bob gwaith ymchwil a noddir gan Brifysgol Bangor a wneir mewn sefydliad tramor gael ei gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Academaidd neu, os oes un yn bod a’i fod yn briodol, gan bwyllgor moeseg ymchwil allanol y sefydliad lletyol.

[c] Os yw Prifysgol Bangor yn cyfrannu at broject, neu fod ymchwilwyr o sefydliad neu gyrff arall yn dymuno casglu data ymchwil sy'n unol â diffiniad Adran 2 uchod, bydd cymeradwyaeth foesegol gan y sefydliad(au) neu'r corff arall/cyrff eraill yn dderbyniol fel arfer yn brawf y cafodd project penodol ei adolygu'n briodol ac y rhoddwyd cymeradwyaeth. Fodd bynnag, dylid anfon hysbysiad o'r gymeradwyaeth foesegol, ynghyd â'r protocol ymchwil, at Gadeirydd y Pwyllgor Moeseg Academaidd perthnasol a gallai yntau neu hithau ddewis cyfeirio'r cynnig at y Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif.

[d] Os ystyria Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil Academaidd perthnasol fod y cynnig ymchwil yn perthyn i un o'r categoriau a nodir yn Adran 2 uchod, neu os oes ansicrwydd ynghylch ei sensitifrwydd, dylai gysylltu ag Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol cyn gynted ag y bo modd a dylid cynnwys y cais / cynnig ymchwil a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Moeseg Ymchwil Academaidd gan yr ymchwilydd.

[e] Yna bydd yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil yn cynnull cyfarfod o'r Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif i ystyried yr ymchwil. Bydd aelodaeth y Grŵp fel a ganlyn:

Prif Swyddog Gweithredu / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol (Cadeirydd)
Cadeiryddion holl Bwyllgorau Moeseg Academaidd y Brifysgol
Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu
Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil (Ysgrifennydd)

Cworwm y Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif fydd o leiaf 3 o Gadeiryddion y Pwyllgorau Moeseg Ymchwil.

Pan fydd cynnig neilltuol o sensitif neu gymhleth o dan ystyriaeth bydd hawl gan Gadeirydd y Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif i gyfethol arbenigwyr perthnasol naill ai o'r Brifysgol neu o asiantaethau allanol i gynghori ac i lywio’r broses benderfynu. Efallai y bydd gofyn i'r ymchwilydd a'i oruchwylydd ymbresenoli hefyd.

[f] Dylai'r Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil hysbysu'r ymchwilydd a'r goruchwyliwr o ganlyniad y cyfarfod. Hysbysir Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil perthnasol a'r Pennaeth Ysgol perthnasol hefyd.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Brand hefyd yn cael rhestr o'r projectau ymchwil sensitif a gymeradwyir.

[g] Os yw'r ymchwilydd yn anfodlon ar benderfyniad y Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif caiff apelio i Gadeirydd Pwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol.

**4. Proses Gofrestru Ymchwil Sensitif**

Unwaith y caiff cynnig ymchwil gymeradwyaeth foesegol gan y Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif bydd yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil yn cofrestru'r cynnig ymchwil ar y Gronfa Ddata Ymchwil Sensitif a ddelir ar ran ddiogel o rwydwaith y Brifysgol.

Rhaid peidio â chadw dim deunyddiau ymchwil y mae gofynion y Drefn hon yn berthnasol iddynt ac sydd felly'n cael eu hystyried yn ddeunyddiau sensitif, o dan unrhyw amgylchiadau, ar gyfrifiadur personol yr ymchwilydd, nac ar rannau anniogel gyriannau rhwydwaith y Brifysgol (M/U). Mae cadw gwybodaeth ar rannau diogel dynodedig o'r rhwydwaith yn sicrhau bod y Brifysgol yn ymwybodol o'r project ymchwil os bydd unrhyw ymholiadau allanol, ac mae hefyd yn gwarchod rhag camddehongli bwriadau gan yr awdurdodau a allai arwain at sancsiynau cyfreithiol. Gall y Ganolfan Cefnogi Gwasanaethau Digidol gynorthwyo gyda chreu ffolderi diogel a dyrannu hawliau mynediad iddynt. Os bydd Ymchwilydd angen caniatáu rhoi mynediad atynt i gydweithiwr o'r tu allan i'r Brifysgol dylid rhoi enw defnyddiwr Bangor iddynt o dan y ddarpariaeth Mynediad at Adnoddau a gallwch drefnu hynny drwy'r Adnoddau Dynol.

Fel rhan o'r broses hon, bydd gofyn i ymchwilwyr sy'n dilyn y Broses Cymeradwyaeth Foesegol i Ymchwil Sensitif a welir yn Adran 3 uchod, gysylltu â Gwasanaethau Digidol er mwyn trefnu rhan ddiogel briodol, gyda threfniadau mynediad eglur, ar gyfer storio'r deunydd. Dylid sganio pob data ffisegol e.e. adroddiadau/ llawlyfrau/ ffurflenni cydsynio/ holiaduron ac yn y blaen a'u huwchlwythyo ar yriant diogel y project, a dinistrio'r copïau caled yn ddiogel wedi hynny.

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil yn goruchwylio'r defnydd datganedig o ddeunydd ymchwil sy'n sensitif o ran eu diogelwch. Diben y trosolwg hwnnw yw sicrhau ymateb sydyn i ymholiadau mewnol ac allanol ynghylch y defnydd datganedig o ddeunyddiau sy'n sensitif o ran eu diogelwch. Bydd yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil yn ymwybodol o enwau'r ymchwilwyr a fydd â gwybodaeth ar gadw ar ran ddiogel o'r rhwydwaith, a bydd yn ymwybodol o'r metadata (e.e. teitlau) ar gyfer y dogfennau sy'n cael eu storio ar yriant diogel project yr ymchwilydd, ond nid o gynnwys y dogfennau. Bydd y trosolwg hwn yn cynnig diogelwch i'r ymchwilwyr, sy'n datgan eu bod yn defnyddio deunydd ymchwil sy'n sensitif o ran diogelwch, gan y bydd yn sicrhau bod y deunydd ymchwil yn cael ei gadw'n ddiogel a hyd braich rhag ymyrraeth o'r tu allan (oni fydd angen mynediad am resymau cyfreithiol), ac yn gyfnewid am hynny bydd yr ymchwilwyr yn agored ynghylch eu defnydd o ddeunyddiau sy'n sensitif o ran eu diogelwch.

**5. Y Drefn i Aelodau o'r Staff / Asiantaethau Allanol sydd Angen Cadarnhad am Brojectau Ymchwil Sensitif Dilys y Brifysgol**

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y cyfrifoldeb sydd arni i sicrhau y caiff ymchwilwyr eu hamddiffyn rhag camddehongli eu bwriadau gan yr awdurdodau a all arwain at sancsiynau cyfreithiol. Efallai y bydd aelodau o'r staff, yr heddlu a / neu asiantaethau eraill am gysylltu â'r Brifysgol i holi a yw unigolyn penodol yn gwneud gwaith ymchwil dilys. Dylid cyfeirio ymholiadau o'r fath at yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil yn y lle cyntaf, a fydd wedyn yn gwneud gwiriadau er mwyn penderfynu a yw canfod deunydd o'r fath neu bryderon yn ei gylch yn gysylltiedig â phroject ymchwil cofrestredig.

## 6. Canllawiau Ymarfer Da

### [a] Defnyddio proffil y brifysgol wrth ymweld â gwefannau sensitif

Dylai ymchwilwyr gofio bod ymweliadau â gwefannau sensitif (hyd yn oed o safleoedd mynediad agored) yn cael eu monitro gan yr heddlu / awdurdodau eraill ac, os canfyddir hynny, gallai beri ymchwiliad gan yr heddlu. Felly, wrth gynnal ymchwil o'r fath, rhaid defnyddio cyfeiriad Protocol Mewnol y Brifysgol i gael mynediad at safleoedd er mwyn sicrhau bod unrhyw ymholiadau am weithgareddau o'r fath yn cyrraedd y sefydliad yn y lle cyntaf.

### [b] Adrodd

Os daw aelod o'r staff neu fyfyriwr i wybod am broject ymchwil a'u bod yn credu bod angen trosolwg arno fel y nodir yn y Drefn hon, rydym yn eu hannog i gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil priodol neu â'r Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil.

### [c] Cydymffurfio a Monitro

Mae pob aelod o'r Brifysgol (yn staff ac yn fyfyrwyr fel ei gilydd) yn uniongyrchol gyfrifol ac atebol am yr wybodaeth y cânt fynediad ati ac y maent yn ei thrin fel rhan o'u gwaith ymchwil. Mae'r staff a'r myfyrwyr wedi'u rhwymo i lynu wrth *Reoliadau Defnydd Derbyniol* y Brifysgol.

Oni chydymffurfir â gofynion y polisi hwnnw lle mae ymchwil yn y cwestiwn yn unol ag Adran 2 uchod rhaid adrodd hynny wrth yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil yn y lle cyntaf. Gellid ystyried cymryd camau disgyblu a gallai'r data ymchwil a gasglwyd fynd yn annilys.